**YSGOL GYNRADD Y BYNEA**

**NEWID YSTOD OEDRAN**
**YSGOL GYNRADD Y BYNEA O 4-11 I 3-11**

# DOGFEN YMGYNGHORI

**Gwybodaeth Atodol**

**21 Rhagfyr 2015**


**Unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ac unrhyw fesurau y mae eu hangen i reoli'r rhain.**

| **Risg** | | **Gwrth-fesur** |
|---|---|---|
| **1.** | Methu â chael caniatâd statudol i weithredu'r cynnig. | - Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013 |
| **2.** | Integreiddio disgyblion i'r ysgol newydd. | - Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r disgyblion i sicrhau pontio ac integreiddio hwylus i'r ysgol newydd |

**Enwau, lleoliadau a chategorïau'r holl ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt.**

Rhagwelir y byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar yr ysgolion canlynol yn unig:

Brynsierfel
Ysgol Bryn Teg
Ysgol Babanod Llangennech
Ysgol Iau Llangennech
Y Bryn
Coedcae
Y Strade




**Nifer y Disgyblion**

Dengys y tablau isod niferoedd y disgyblion yn Ysgolion: Brynsierfel, Bryn Teg, Babanod Llangennech, Iau Llangennech, y Bryn

| Ysgol Brynsierfel | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 Rh | 2 Ll | 3 Rh | 3 Ll | 4 Rh | 4 Ll | 5 Ll | 6 Ll | 7 Ll | 8 Ll | 9 Ll | 10 Ll | 11 Ll | Cyfan-swm Disgyb-lion | Cyfan-swm CALL |
| 2015 | 9 | 0 | 8 | 21 | 0 | 28 | 25 | 29 | 23 | 21 | 23 | 23 | 0 | 210 | 201.5 |
| 2014 | 12 | 0 | 16 | 11 | 0 | 24 | 28 | 23 | 20 | 24 | 22 | 19 | 0 | 199 | 185 |
| 2013 | 7 | 0 | 11 | 14 | 0 | 30 | 23 | 22 | 24 | 25 | 19 | 20 | 0 | 195 | 186 |
| 2012 | 7 | 1 | 13 | 17 | 0 | 25 | 23 | 24 | 24 | 19 | 19 | 21 | 0 | 193 | 183 |
| 2011 | 9 | 0 | 10 | 12 | 0 | 23 | 23 | 24 | 20 | 19 | 23 | 20 | 0 | 183 | 173.5 |

** Oedrannau ar 31/08/14*

| Ysgol Bryn Teg | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 Rh | 2 Ll | 3 Rh | 3 Ll | 4 Rh | 4 Ll | 5 Ll | 6 Ll | 7 Ll | 8 Ll | 9 Ll | 10 Ll | 11 Ll | Cyfan-swm Disgyb-lion | Cyfan-swm CALL |
| 2015 | 12 | 3 | 0 | 34 | 0 | 29 | 26 | 33 | 36 | 29 | 33 | 26 | 0 | 261 | 255 |
| 2014 | 16 | 1 | 0 | 32 | 0 | 29 | 35 | 37 | 28 | 32 | 26 | 20 | 0 | 256 | 248 |
| 2013 | 8 | 0 | 0 | 25 | 0 | 35 | 35 | 25 | 28 | 30 | 18 | 26 | 0 | 230 | 226 |
| 2012 | 10 | 0 | 0 | 39 | 0 | 36 | 28 | 29 | 28 | 19 | 22 | 20 | 0 | 231 | 226 |
| 2011 | 18 | 0 | 0 | 36 | 0 | 32 | 31 | 25 | 19 | 24 | 18 | 24 | 0 | 227 | 218 |

** Oedrannau ar 31/08/14*

| Ysgol Babanod Llangennech | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 Rh | 2 Ll | 3 Rh | 3 Ll | 4 Rh | 4 Ll | 5 Ll | 6 Ll | 7 Ll | 8 Ll | 9 Ll | 10 Ll | 11 Ll | Cyfan-swm Disgyb-lion | Cyfan-swm CALL |
| 2015 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 54 | 61 | 63 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 216 | 216 |
| 2014 | 0 | 0 | 0 | 27 | 0 | 59 | 61 | 72 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 220 | 220 |
| 2013 | 0 | 0 | 0 | 33 | 0 | 59 | 72 | 54 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 218 | 218 |
| 2012 | 0 | 0 | 0 | 30 | 0 | 72 | 51 | 55 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 208 | 208 |
| 2011 | 0 | 0 | 0 | 47 | 0 | 54 | 57 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 208 | 208 |

** Oedrannau ar 31/08/14*

| Ysgol Iau Llangennech | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 Rh | 2 Ll | 3 Rh | 3 Ll | 4 Rh | 4 Ll | 5 Ll | 6 Ll | 7 Ll | 8 Ll | 9 Ll | 10 Ll | 11 Ll | Cyfan-swm Disgyb-lion | Cyfanswm CALL |
| 2015 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 | 55 | 55 | 50 | 0 | 230 | 230 |
| 2014 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 56 | 52 | 48 | 46 | 0 | 202 | 202 |
| 2013 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 53 | 47 | 43 | 56 | 0 | 200 | 200 |
| 2012 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 42 | 55 | 55 | 0 | 200 | 200 |
| 2011 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 40 | 54 | 54 | 46 | 0 | 194 | 194 |

** Oedrannau ar 31/08/14*

| Ysgol y Bryn | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 Rh | 2 Ll | 3 Rh | 3 Ll | 4 Rh | 4 Ll | 5 Ll | 6 Ll | 7 Ll | 8 Ll | 9 Ll | 10 Ll | 11 Ll | Cyfan-swm Disgyb-lion | Cyfan-swm CALL |
| 2015 | 4 | 0 | 10 | 25 | 0 | 29 | 30 | 23 | 21 | 23 | 29 | 28 | 0 | 222 | 215 |
| 2014 | 14 | 0 | 13 | 22 | 1 | 34 | 29 | 29 | 28 | 29 | 32 | 30 | 0 | 261 | 247 |
| 2013 | 13 | 0 | 17 | 21 | 0 | 32 | 32 | 35 | 33 | 31 | 33 | 19 | 0 | 266 | 251 |
| 2012 | 10 | 0 | 8 | 23 | 0 | 30 | 32 | 32 | 29 | 30 | 19 | 31 | 0 | 244 | 235 |
| 2011 | 11 | 0 | 8 | 19 | 0 | 28 | 30 | 29 | 28 | 18 | 30 | 28 | 0 | 229 | 219.5 |

** Oedrannau ar 31/08/14*

## Rhagamcanion Disgyblion

| Ysgol | Union nifer y disgyblion ar y gofrestr Ion 2015 | Rhagamcanion - Nifer y disgyblion ar y gofrestr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ion 2016 | Ion 2017 | Ion 2018 | Ion 2019 | Ion 2020 |
| Y Bynea | 131 | 138 | 143 | 140 | 137 | 138 |
| Brynsierfel | 201.5 | 203.5 | 206.5 | 211.5 | 214.5 | 211.5 |
| Ysgol Bryn Teg | 255 | 260 | 259 | 261 | 255 | 253 |
| Ysgol Babanod Llangennech | 216 | 212 | 209 | 207 | 205 | 203 |
| Ysgol Iau Llangennech | 230 | 243 | 249 | 253 | 241 | 235 |
| Y Bryn | 215 | 211 | 207 | 210 | 215 | 217 |

## Nifer y Lleoedd

| Ysgol | Nifer y Lleoedd Ion 15 MCSW |
|---|---|
| Y Bynea | 167 |
| Brynsierfel | 240 |
| Ysgol Bryn Teg | 240 |
| Ysgol Babanod Llangennech | 210 |
| Ysgol Iau Llangennech | 240 |
| Y Bryn | 246 |

## Adeiladau

| Ysgol | Cyflwr Cyffredinol | Addasrwydd |
|---|---|---|
| Y Bynea | A - Da | B - Boddhaol |
| Brynsierfel | A - Da | A - Da |
| Ysgol Bryn Teg | A - Da | A - Da |
| Ysgol Babanod Llangennech | B - Boddhaol | B - Boddhaol |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Iau Llangennech | C - Gwael | B - Boddhaol |
| Y Bryn | A - Da | A - Da |

**Deilliannau Dysgwyr**

Ni ragwelir y bydd newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn cael effaith negyddol ar ddeilliannau dysgwyr. Yn wir, rydym yn gwbl hyderus y bydd deilliannau dysgwyr yn gwella wrth i ddysgwyr ifanc integreiddio mewn amgylchedd dysgu priodol. Caiff pob agwedd ar y ddarpariaeth a'r deilliannau eu monitro yn unol â disgwyliadau uchel a phrosesau ein gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol sef ERW.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn casglu ac yn crynhoi data ynghylch deilliannau dysgwyr yn rheolaidd ac yn drefnus er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu hyrwyddo a'u monitro'n aml ym mhob maes dysgu craidd. Bydd hyn yn parhau drwy gydol y newid a gynigir er mwyn sicrhau bod deilliannau dysgwyr yn cael eu monitro'n barhaus ac na fydd y cynnig yn effeithio arnynt. Bydd gwaith cymorth a her yn yr ysgol gan Gynghorwyr Her ERW yn rhan ganolog o'r gwaith hwn. Bydd y gwaith yn cynnwys amserlen o ymweliadau yn canolbwyntio ar ddadansoddi deilliannau dysgwyr ac ar ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'n bwysig nodi bod canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â'r Corff Llywodraethu bob amser. Trwy wneud hyn, sicrheir y cefnogir deilliannau dysgwyr trwy atebolrwydd ysgol gyfan ar y lefel uchaf.

Mae Cynghorwyr Her ERW yn rhoi cryn bwyslais ar allu ysgol i ddangos lefel uchel o 'werth ychwanegol' yn ei pherfformiad a hynny ar sail y man cychwyn a feincnodwyd ar gyfer y dysgwr unigol. Bydd yr agwedd hon yn parhau i fod yn un o nodweddion allweddol monitro ac adolygu perfformiad yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn.

**Effaith y cynnig**

Effaith fwyaf tebygol y cynnig i integreiddio darpariaeth feithrin yn Ysgol y Pwll ar yr ansawdd a nodwyd yn adroddiad Estyn fyddai gwella'r profiad a'r amgylchedd dysgu a darparu Cyfnod Sylfaen mwy cydlynol ar gyfer y dysgwyr ifanc. Gwneid hyn trwy ddileu cam pontio rhwng y ddarpariaeth feithrin a derbyn, a thrwy'r parhad o ran staffio a throsglwyddo data ynghylch disgyblion unigol, yn enwedig o ran addysgu disgyblion 3–11 oed, gofalu amdanynt a chynnig cymorth iddynt ac o ran darparu'r cyfleoedd dysgu mewn ysgol gynradd sengl 3-11 oed fel sy'n digwydd mewn ysgolion cyfagos eraill yn Sir Gaerfyrddin.

**Manteision darpariaeth feithrin**

Mae mynychu ysgol sydd â darpariaeth feithrin yn cynnig llawer o fanteision. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae pontio o'r meithrin i addysg gynradd yn haws i blant sy'n mynychu dosbarth meithrin yn yr ysgol. Yn aml, byddant yn ymgartrefu yn gynt na phlant sydd heb gael darpariaeth feithrin.
- Gellir clustnodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynt, cyn bod y plentyn yn dechrau addysg gynradd lawn amser.

- Dengys astudiaethau fod datblygiad gwybyddol a chymdeithasol/ymddygiadol plant sy'n mynychu darpariaeth feithrin gyn ysgol yn well o gymharu â phlant sydd heb gael darpariaeth feithrin.

Mae cael dosbarth meithrin yn yr ysgol hefyd yn cynnig budd i'r ysgol gan fod rhieni'n tueddu i anfon eu plant i'r ysgol sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar ac mae hyn yn codi'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol.

**Y Broses Gyhoeddi**

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos yn yr ysgolion a enwyd a'r rhai cyfagos yn yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod. Os derbynnir gwrthwynebiad cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiad ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

**Â phwy arall y byddwn ni'n ymgynghori?**

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Ategol)<br>Ysgol Y Bynea | Llywodraethwyr a Rhieni,<br>Ysgol Y Bynea |
| Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin<br>Gofal Plant / Y Blynyddoedd Cynnar **<br>Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr Cymuned<br>Cyngor Gwledig Llanelli<br>Cyngor Tref Llanelli |
| Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol | Comisiynydd yr Iaith Gymraeg |
| Yr Aelod Cynulliad (AC)<br>Yr Aelod Cynulliad Rhanbarthol | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Undeb y GMB |
| UNSAIN | *Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin |
| Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) | Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol |
| Cyfarwyddwr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos | ERW – Ein Rhanbarth ar Waith |
| Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | Gweinidogion Cymru |
| Estyn | **Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol a'r Eglwys Gatholig** |
| Dechrau'n Deg | |

* Dogfen ymgynghori wedi'i hanfon at y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr (Ysgol Brynsierfel, Bryn Teg, Ysgol Babanod Llangennech, Ysgol Iau Llangennech, Ysgolion Uwchradd: Ysgol Coedcae ac Ysgol y Strade)
**Rhoddir gwybod i Fudiad Ysgolion Meithrin ac unrhyw ddarparwyr meithrin preifat trwy'r adain darpariaeth Gofal Plant / y Blynyddoedd Cynnar yn yr Adran Addysg a Phlant.

**Rhagor o Gwestiynau**

Os oes gennych ragor o gwestiynau ynghylch y cynnig cofiwch roi gwybod i ni os gwelwch yn dda erbyn **Dydd Gwener, 29ain Ionawr 2016** fan hwyraf:

Drwy lythyr:

**Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**
**Adeilad 2**
**Parc Dewi Sant**
**Heol Ffynnon Job**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HB**

Drwy anfon e-bost:

**aaprma@sirgar.gov.uk**

Drwy gwblhau'r profforma ar-lein

Drwy roi eich sylwadau yn y blwch canlynol.

| |
|---|
| |